**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Emma Wools
Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

25 Gorffennaf 2023

Annwyl Emma

Diolch am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd.

Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch nodi eich bod wrthi'n edrych ar raglen Rhybudd Rhag Cam-drin mewn Perthynas. A allech roi rhagor o fanylion am y rhaglen hon a'i gweithrediad yng Nghymru?

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ffrwd waith "Mynd i'r afael â chyflawni trais" yn y Glasbrint, a rhan yr heddlu a'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn y ffrwd waith honno. A allech nodi barn comisiynwyr heddlu a throseddu ynghylch a yw rhaglenni cyflawnwr yn effeithiol wrth atal trais ar sail rhywedd ac ym mha ffyrdd, os o gwbl, y mae heddluoedd ar draws Cymru yn ymgysylltu â'r rhaglenni hynny. Ym mha ffyrdd y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng Canolfannau Cymorth Cynnar gwasanaeth yr heddlu a rhaglenni cyflawnwyr yn y gymuned ac, ymhellach, a yw'r comisiynwyr heddlu a throseddu wedi darparu unrhyw gyllid i sefydliadau yng Nghymru ddarparu rhaglenni o'r fath?

Gan fod ein cyfnod casglu tystiolaeth yn dod i ben, byddem yn ddiolchgar cael eich ymateb erbyn 25 Awst 2023 os yw'n bosibl.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament